

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol

Promenade

Bwrdd Iechyd Prifysgol

Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror 2017

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	8
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	13
5.	Y Camau Nesaf.....	14
6.	Methodoleg	15
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiad Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Promenade yn 600 Heol y Mwmbwls, Abertawe, SA3 4DL ar 28 Chwefror 2017.

Rhoddir rhybudd am arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf: Rydym yn siarad â'r cleifion (rhieni a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwyntiau'r cleifion yn ganolog i'r dull a ddefnyddiwn i gynnal yr arolygiad.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol: Rydym yn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaethau yn cyflenwi gofal o safon uchel, ddiogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y person
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth: Rydym yn ystyried sut y caiff gwasanaethau eu rheoli a'u harwain ac a yw diwylliant y gwasanaeth yn darparu gofal diogelwch ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae'r gwasanaethau'n rheoli ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg wrth fynd ati i arolygu ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Promenade yn darparu gwasanaeth i gleifion yn ardal y Mwmbwls, Abertawe ac ardaloedd cyfagos. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Promenade yn bractis cymysg, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a phreifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd, pum nyrs deintyddol, un glanweithydd, rheolwr gwasanaeth y practis a dau dderbynydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a phreifat.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Promenade yn bodloni'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud yn dda yn y canlynol:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y tîm o staff yn gyfeillgar, croesawgar ac yn ymrwymo i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân yn gyffredinol
- Glanhawyd y cyfarpar deintyddol ac roeddent wedi'u sterileiddio'n briodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio Pelydrau-X yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen i'r gweithdrefnau cwyno fod ar gael i'w gweld
- Hyfforddiant gloywi ar ddadheintio
- Storio yn yr oergelloedd clinigol
- Archwiliadau radiograffeg at ddibenion sicrwydd ansawdd
- Cadw cofnodion o gleifion
- Gwerthuso'r staff yn flynyddol.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymrwmo i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd yr adborth a gafwyd yn ein holiadur i gleifion yn gadarnhaol. Mae'n rhaid i'r wybodaeth ynghylch gweithdrefnau cwyno fod ar gael i'w gweld yn unol â chanllawiau a safonau.

Cyn yr arolygiad hwn, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn casglu eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. At ei gilydd, cwblhawyd a dychwelwyd 17 holiadur. Heb os, nododd y cleifion eu bod yn cael eu croesawu a'u bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbynnir yn y practis. Roedd sylwadau gan y cleifion yn cynnwys:

“Mae'r staff deintyddol yn broffesiynol ac yn gyfeillgar o hyd”

“Deintyddion cyfeillgar iawn”

“Gwasanaeth a sylw gwych”

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal ag urddas a pharch. Roedd gofod ar gael er mwyn i staff gael sgysiau â chleifion mewn lle preifat, i ffwrdd o'r cleifion eraill os oes angen. Roedd hyn er mwyn cadw cyfrinachedd y cleifion. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau preifat a GIG ar gael yn yr ystafell aros, fel bod cleifion yn cael y wybodaeth angenrheidiol am gostau. Gwelsom fod y drysau i'r meddygfeydd deintyddol, (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod yr arolygiad), yn parhau ar gau er mwyn cadw preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. Fodd bynnag, roedd wyth o'r 17 ymateb a gafwyd yn yr holiaduron yn dangos eu bod wedi gorfod aros oherwydd oedi wrth dderbyn eu triniaeth. Rydym felly'n argymhell y dylai'r practis ystyried sut y maen nhw'n cyfathrebu â chleifion pan fod oediadau'n codi. Nododd deg o'r 17 o atebwyr i'r holiadur eu bod yn ansicr ynghylch trefniadau mewn argyfwng y tu allan i oriau. Fodd bynnag, gwelsom fanylion am y rhif cyswllt argyfwng, manylion y deintyddion ac oriau agor y feddygfa y tu fewn i'r practis.

Cadw'n iach

Mae'r wybodaeth hyrwyddo iechyd yn helpu i gefnogi cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant. Bu i'r holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur ddweud wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd gwybodaeth i gleifion a thafleini hyrwyddo iechyd ar gael yn yr ystafell aros.

Gofal unigol

Gwelsom fod y practis wedi ysgrifennu gweithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaethau deintyddol y GIG a phreifat. Nododd 12 o'r 17 ymateb yn yr holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Argymhellwyd y dylai rheolwr y practis sicrhau bod copïau o'r weithdrefn gwneud cwynion ar gael i'w gweld ar y bwrdd hysbysebu yn yr ystafell aros. Gwnaed hyn ar ddiwrnod yr ymweliad, fel bod cleifion yn gallu gweld y wybodaeth yn glir os oedd angen iddynt. Argymhellwyd bod angen i reolwr y practis ddiweddarau gwefan y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) am hysbysebu moesegol ac yn benodol, bod angen cynnwys manylion am weithdrefnau cwyno'r practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r wybodaeth ynghylch y gweithdrefnau cwyno fod ar gael i'w gweld yn unol â chanllawiau a safonau.

Roedd y gweithdrefnau cwyno yn cydymffurfio â'r trefniadau ar gyfer gwneud cwyn ynghylch triniaeth y GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella') a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.¹

Gwelsom fod cofnod o ganmoliaethau, pryderon a chŵynion yn cael ei gynnal. Rheolwr y practis oedd y rheolwr a oedd yn gyfrifol am y cwynion. Argymhellwyd gennym fod angen gwneud adolygiad ac archwiliad o gŵynion gan staff, er mwyn dysgu ohonynt. Argymhellwyd gennym y dylai'r practis ystyried cael dogfennau allweddol, megis y gweithdrefnau cwyno, ar gael yn yr iaith Gymraeg.

Roedd y practis wedi sefydlu ffordd o gael adborth gan y cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod holiaduron bodlonrwydd y cleifion yn cael eu rhoi er mwyn casglu adborth gan y cleifion ac awgrymiadau. Argymhellwyd y dylai'r practis

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

ddatblygu proses ffurfiol o adolygu'r adborth a gafwyd gan gleifion. Dylai unrhyw ganlyniadau, camau gweithredu neu wersi o adborth y cleifion gael eu crynhoi a'u hadrodd yn ôl i gleifion er gwybodaeth.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol, ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau a oedd yn eu lle i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau gofal iechyd cysylltiedig a oedd modd eu hosgoi. Fodd bynnag, mae angen i ddau o'r deintyddion gael hyfforddiant gloywi ar ddadheintio.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer Pelydr-X yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud archwiliadau a gwirio sicrwydd ansawdd radiograffeg. Roedd offer dadebru a meddyginiaeth mewn argyfwng ar gael yn y practis, ac roedd systemau yn eu lle i helpu sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, darganfuom fod angen oergell glinigol ar gyfer deunyddiau deintyddol ac unrhyw feddyginiaeth a fyddai angen cael eu storio mewn oergell.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau er mwyn helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu llesiant a diogelwch y plant a'r oedolion bregus neu mewn perygl.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu diogelu iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Gellir gweld bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a bod y meddygfeydd yn lân, taclus ac wedi'u trefnu'n dda.

Gwelsom fod y profion dyfeisiau cludadwy wedi'u gwneud er mwyn helpu sicrhau bod y practis yn defnyddio dyfeisiau cludadwy'n ddiogel. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis dystysgrif gosod gwifrau trydanol diweddar.

Bu i ni edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)² a gwelsom fod taflenni diogelwch data wedi'u cadw ar gyfer pob sylweddol, yn ogystal â'r asesiadau risg. Fodd bynnag, argymhellwyd gennym y dylai eitemau COSHH gael eu storio'n ddiogel neu dan glo yn y gegin. Roedd

² <http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm> (Saesneg)

dogfennau cytundebau yn eu lle ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus neu nad yw'n beryglus. Roedd y cynhwysyddion offer miniog wedi'u storio'n ddiogel.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi'u gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd cytundeb cynnal offer tân ar gael, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg i'w gweld. Roedd polisi iechyd a diogelwch, a gwelsom fod asesiadau risg ar yr amgylchedd wedi'u gwneud.

Rheoli Heintiau

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer diogelu staff a chleifion rhag heintiau gofal iechyd cysylltiedig a oedd modd eu hosgoi yn y practis deintyddol. Roedd hyn oherwydd ein bod wedi gweld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau yn eu lle. Roedd esiamplau yn cynnwys:

- Ystafell benodol ar gyfer glanhau a dadheintio offer deintyddol
- Argaeledd a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol megis menig, ffedogau a chyfarpar diogelu'r llygaid tafladwy
- Basn ymolchi yn arbennig ar gyfer golchi dwylo
- Roedd yr offer a ddefnyddir ar gyfer glanhau a sterileiddio'r cyfarpar mewn cyflwr da
- Roedd llyfrau cofnodi ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi'u cynnal, gan gynnwys profion dyddiol
- Roedd yr offer wedi'u storio ac yn cael eu cludo'n briodol. Roedd pecynnau'n dangos y dyddiad a oedd angen eu defnyddio.

Roedd polisi dadheintio ar gael a gwelsom fod yr holl staff yn llofnodi ac yn dyddio er mwyn nodi eu bod wedi ystyried y polisiau allweddol. Mae'n rhaid i gofnodion imiwnedd gael eu cadw'n gyfamserol, a dylid cadw cofnod a/neu dystiolaeth o imiwnedd hir pan fod hynny'n briodol. Gwelsom fod profion brechiadau imiwnedd y staff yn gyfredol.

Roedd y practis wedi gwneud archwiliad rheoli heintiau, fel yr awgrymwyd gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05³ (WHTM 01-05). Roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant gloywi ar ddadheintio a

³ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444> (Saesneg)

oedd yn ofynnol bob pum mlynedd. Roedd hefyd ganddynt dystysgrifau hyfforddiant diweddar, a oedd yn nodi eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau. Roedd y rhain i gyd yn glir ac yn profi eu bod wedi derbyn yr holl hyfforddiant gofynnol ar ddadheintio.

Meddyginiaeth mewn argyfwng ac offer dadebru

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth mewn argyfwng ar gael yn y practis ac roedd systemau yn eu lle i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng yn codi gyda'r claf (llewygu). Roedd polisi dadebru ar gael a oedd yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar ymdopi ag argyfyngau meddygol, a sut i gynnal adfywiad cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis un cynorthwywr cymorth cyntaf penodedig a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael hefyd. Roedd llyfr priodol ar gyfer cadw cofnod o ddamweiniau, ac roedd y taflenni yn nodi'r damweiniau wedi'u storio'n ddiogel er mwyn diogelu data.

Roedd meddyginiaethau mewn argyfwng wedi'u trefnu'n dda, gyda thafenni cynnal bywydau yn cyd-fynd â nhw gyda'r wybodaeth ar gyfer argyfyngau penodol. Cedwir cofnod yn rheolaidd o'r gwiriadau meddyginiaethau mewn argyfwng ac roedd yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, darganfuom fod angen oergell glinigol ar gyfer deunyddiau deintyddol neu unrhyw feddyginiaethau a fyddai angen eu cadw mewn oergell.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen oergell glinigol ar gyfer deunyddiau deintyddol a/neu unrhyw feddyginiaethau a fyddai angen eu cadw mewn oergell.

Diogelu

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu llesiant a diogelwch y plant a'r oedolion bregus a allai fod mewn perygl. Roedd hyn oherwydd bod polisiâu diogelu priodol yn eu lle a bod hyfforddiant ar ddiogelu yn cael ei ddarparu i'r holl staff perthnasol. Roedd trefniadau yn eu lle er mwyn i'r staff godi unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod modd iddynt wneud hyn yn y practis. Dywedwyd wrthym eu bod yn gwneud gwiriadau cyn cyflogi unrhyw aelod o staff newydd, cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd gwiriadau clirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y deintyddion hefyd yn gyfamserol.

Cyfarpar Radiograffeg

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi'i gynllunio a'i osod i sicrhau bod y cyfarpar radiograffeg yn cael ei defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod peiriannau Pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y staff a oedd yn rhan o waith radiograffeg wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁴ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (IRMER) 2000⁵. Roedd ffeil ar ddiogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal. Fodd bynnag, roedd angen i'r practis gwblhau archwiliadau radiograffeg at ddibenion sicrwydd ansawdd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol bod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffeg at ddibenion sicrwydd ansawdd.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom sampl o gofnodion deintyddiaeth, a siaradom gyda'r ymarferwyr deintyddol ar ddiwrnod yr arolygiad. Yn gyffredinol, gwelsom fod y practis yn cadw cofnodion ac yn darparu gofal o ansawdd da.

Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd cofnodion o hanes meddygol yn cael eu cydarwyddo'n gyson gan y deintyddion a'r cleifion i ddangos eu bod wedi'u gwirio. Nid oedd system glir o'u diweddarau
- Mae angen recordio'n gyson cydsyniad y cleifion
- Nid oedd cynlluniau ysgrifenedig triniaethau'r GIG ar gyfer triniaethau Band 2 a Band 3 a chynlluniau ar gyfer triniaethau cymysg (NHS a thriniaeth breifat a oedd wedi'u darparu yn yr un cwrs o driniaeth) yn cael eu darparu'n gyson i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r canllawiau cadw cofnod proffesiynol.

⁴ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁵ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

Gofal effeithiol

Mae'r cleifion yn elwa ar bractis sy'n edrych i wella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis yn ymgysylltu â'r archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau.

Roedd tystiolaeth yn dangos bod trefniadau yn eu lle ar gyfer staff i wneud archwiliadau ar y cyd â'u cymheiriaid. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu o wneud adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau yn cyfrannu at ansawdd y gofal a rhoddir. Gwnaethom drafod yr ystod o bynciau archwiliadau a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae gan Bractis Deintyddol Promenade dîm o staff sefydlog yn y practis, ac roedd lefelau trosiant staff yn isel. Rheolir y practis o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymo i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Roedd y prif ddeintydd a rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dîm o staff a oedd yn ymddangos yn hapus ac yn gymwys yn eu swyddi.

Dywedodd staff wrthym fod mynediad ganddynt at yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl ac i'w datblygiad proffesiynol personol parhaus. Gwelsom fod systemau yn eu lle i sicrhau bod yr holl staff newydd yn cael cwrs cyflwyno, ac roeddent yn cael gwybod am bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwnaethom roi cyngor ar ddatblygu'r dogfennau a'r cofnodion ar gyfer y cwrs cyflwyno. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y rhain yn cael eu cofnodi. Fodd bynnag, mae angen cynnal arfarniadau ar gyfer y staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cynnal arfarniadau ar gyfer yr holl staff yn rheolaidd fel ffordd o sicrhau bod ansawdd y gofal a ddarperir yn parhau i fod yn uchel.

Cadarnhawyd gennym fod yr holl staff wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. I gydymffurfio â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat, mae'n rhaid i bob deintydd sy'n darparu triniaeth breifat fod wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd tystysgrifau o hyn ar gael yn y practis. Roedd ffeiliau'r cleifion wedi'u storio'n briodol i sicrhau bod data personol yn ddiogel.

Gwnaethom argymhell y dylid adolygu'r holl bolisïau'n rheolaidd er mwyn i'w llofnodi a'u dyddio, a bod dyddiad ar gyfer eu hadolygu nesaf yn cael ei ychwanegu. Roedd angen ystyried rhai polisïau i sicrhau eu bod yn benodol ar gyfer y practis, yn hytrach nag yn bolisïau cyffredinol. Nodwyd wrth reolwr y practis bod angen datblygu eu polisi sicrwydd ansawdd ymhellach, a bod angen gweithredu proses barhaus o archwilio ac adolygu fel ffordd o wella'n barhaus ansawdd y gofal a ddarperir.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â phrif ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Promenade yn mynd i'r afael â'r prif ganfyddiadau a nodwyd, gan nodi amserlen hefyd.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y gwasanaeth mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r gwasanaeth yn dal i fod heb eu cymryd a/neu eu bod ar y gweill, dylai'r gwasanaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, er mwyn cadarnhau pryd fyddant wedi mynd i'r afael â nhw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei werthuso ac yna'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi cofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaeth deintyddol preifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁶ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011⁷. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hynny, yn ogystal â'n cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd 1999, y Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau proffesiynol

⁶ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> (Saesneg)

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made> (Saesneg)

perthnasol eraill. Enghreifftiau yw Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd ym meddiant AGIC hyd yma
- Cyfweiliadau â staff gan gynnwys staff deintyddol a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth ar daflen wybodaeth y practis ar y wefan (lle'n briodol)
- Holiaduron AGIC i gleifion.

Ar ddiwedd yr arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol i sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygu'r practis deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Caiff y canfyddiadau hyn (os oes rhai), yn ogystal ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, eu nodi yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o sut mae'r practis yn rhoi'r safonau ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Promenade

Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliadau/ Safonau	Camau gweithredu gan y practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
6	Mae'n rhaid i'r wybodaeth ynghylch gweithdrefnau gwneud cwyn fod ar gael i'w gweld yn unol â chanllawiau a safonau.	Safonau lechyd a Gofal 6.3 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) <i>Cyngor Deintyddol Cyffredinol Canllaw 5.1</i>	Mae'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn ynghylch y GIG neu breifat yn cael eu dangos yn nerbynfa'r practis a gellir eu cael yma.	Nicola Steele	Cwblhawyd

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliadau/ Safonau	Camau gweithredu gan y practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Mae angen oergell glinigol ar gyfer deunyddiau deintyddol ac unrhyw feddyginiaeth a fyddai angen cael eu storio mewn oergell.	Safonau lechyd a Gofal 2.6 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)	Trefnir deunyddiau clinigol a deintyddol sy'n cael eu tynnu o oergell y staff a'r oergell ddeintyddol benodol.	Darril Williams	30 Ebrill 2017
11	Mae angen cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r canllawiau cadw cofnod proffesiynol.	Safonau lechyd a Gofal 3.3, 3.5, 4.2 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'r Tîm Deintyddol - Safon 4</i>	Caiff cofnodion y cleifion eu cwblhau'n gywir ac maent yn gyfamserol yn unol â'r canllawiau.	Holl ddeintyddion y practis	Cwblhawyd ac mae'n parhau

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliadau/ Safonau	Camau gweithredu gan y practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
11	Mae'n ofynnol bod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffeg at ddibenion sicrwydd ansawdd.	Safonau lechyd a Gofal 2.9 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) <i>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999</i> <i>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000</i>	Caiff archwiliadau eu cwblhau'n fisol gan ddefnyddio system gyfrifiadurol	Nicola Steele	Cwblhawyd ac mae'n parhau
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
13	Mae angen cynnal arfarniadau ar gyfer yr holl staff yn rheolaidd fel ffordd o sicrhau bod ansawdd y gofal a ddarperir yn parhau'n uchel.	Safonau lechyd a Gofal 7.1 Rheoliadau	Polisi gwerthuso yn ei le. Gwneir arfarniadau ym mis Ebrill.		30 Ebrill 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliadau/ Safonau	Camau gweithredu gan y practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b) <i>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'r Tîm Deintyddol Safon 6.6.1 Matrics Aeddfedrwyd d Deintyddiaeth (MMD)</i>			

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Nicola Steele

Teitl: Rheolwr y practis

Dyddiad: 24/03/2017